**PWYLLGOR SAFONAU**
**1 HYDREF 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Llun 1 Hydref 2018.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Robert Dewey, Phillipa Earlam, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIADAU:**
Jonathan Duggan-Keen ac Edward Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**17. PENODI CADEIRYDD**

Eglurodd y Swyddog Monitro y gofynion fel y maent yn y Cyfansoddiad a dywedodd nad oedd y Cadeirydd presennol am gael ei ail benodi oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor. Enwebodd y Cynghorydd Woolley Rob Dewey ac eiliodd Phillipa Earlam hyn. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Rob Dewey yn Gadeirydd y Pwyllgor.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd weddill y cyfarfod)

**18. PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is Gadeirydd i'r Pwyllgor. Cafodd enwebiad Phillipa Earlam, sef Julia Hughes, ei eilio gan Ken Molyneux. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Julia Hughes fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**19. DATGAN CYSYLLTIADAU (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

## 20. COFNODION

Cyflwynwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2018, yn ddibynnol ar nifer o newidiadau i gofnod rhif 86 a gwall teipograffyddol ar gofnod rhif 87.

Materion yn Codi

O safbwynt paragraff olaf cofnod rhif 86, dywedodd Philippa ei bod hi ar ddeall bod y daflen wedi ei chylchredeg ar ddiwrnod y Fforwm.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at y weithdrefn sy'n ymwneud â chynghorydd yn sefyll i lawr wrth i ymchwiliad gael ei gynnal. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n defnyddiol rhannu hwn gyda'r Pwyllgor.

Cytunodd y Swyddog Monitro gysylltu â'i swyddog cyfatebol yng Nghyngor Gwynedd er mwyn gweld beth oedd y ddogfen a gweld a ellid ei osod ar raglen cyfarfod grŵp nesaf y Swyddogion Monitro.

Cofnod rhif 88: Y Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol – holodd Julia Hughes am ganlyniad dau gam gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Johnson ei fod wedi derbyn copi o dempled yr adroddiad blynyddol. Byddai'r mater o amlder yr adrodd ar Drosolwg o Gwynion Moesegol yn cael ei drin o dan y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 21. GOLLYNGIADAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 22. CANLLAWIAU SANCSIYNAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad ar ganllawiau sancsiynau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Banel Dyfarnu Cymru, i'w defnyddio pan fyddai tribiwnlys achos neu dribiwnlys apêl yn canfod fod cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Aelodau. Manylwyd ar bum pwrpas y canllaw yn ogystal â'r dull gweithredu pum cam ar gyfer penderfynu ar gosb.

Wrth gofio trafodaeth yn y Gynhadledd Safonau, eglurodd y Swyddog Monitro mai er mai nifer fechan o achosion sy'n cyrraedd y cam tribiwnlys, roedd amrywiaeth ehangach o sancsiynau addas ar gael i'w defnyddio yn Lloegr. Tra na allai Panel Dyfarnu Cymru ymgyrchu dros newid i ddedfwriaeth yng Nghymru, roedd yn bosib y gallai cyngohrau wneud eu sylwadau eu hunain. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) y flwyddyn nesaf yn rhoi cyfle i fabwysiadu newid o'r fath ac y gallai'r Pwyllgor, pe dymunent, ystyried ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi sylwadau ar hyn.

Wrth gynnig yr awgrym hwn fel argymhelliad ychwanegol, dywedodd y Cynghorydd Woolley y gallai rhoi mwy o opsiynau i baneli o ran sancsiynau leihau'r broses.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys y canllawiau;a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r amrywiaeth o sancsiynau a hyblygrwydd sy'n bodoli yn Lloegr drwy ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 23. ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN 2017/18

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad oedd yn crynhoi prif faterion Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o safbwynt safonau cynghorau sir a thref / cymuned. Atodwyd manylion am gwynion Cod Ymddygiad ar gyfer pob cyngor at yr adroddiad.

Nodwyd y bu cynnydd o 14% mewn cwynion Cod Ymddygiad a hynny yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol mewn cwynion am ymddygiad cynghorwyr tref / cymuned, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Tra bo'r rhan fwyaf o gwynion Cod Ymddygiad wedi eu cau ar ol eu hystyried am y tro cyntaf, bu gostyngiad yn y nifer o gwynion oedd yn cael eu cau ar ol ymchwiliad llawn. O'r tri achos oedd wedi eu hatgyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru, cafwyd fod dau ohonynt yn achosion difrifol.

Atgoffodd y Swyddog Monitro fod gwybodaeth fanwl ar gael yn Llyfr Achosion yr Ombwdsmon. Er y bu cynnydd yn y nifer o gwynion, roedd hyn yn dal yn ganran isel o ystyried y nifer o gynghorau tref / cymuned yng Nghymru. Nodwyd bod yr ystadegau a nodwyd ym mhob adroddiad blynyddol yn cynnwys peth achosion oedd yn cario drosodd o flwyddyn i flwyddyn.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Johnson ar natur amrywiol y cwynion, dywedodd y Swyddog Monitro bod cyflwyno'r Gweithdrefnau Datrysiadau Lleol wedi bod o gymorth i hidlo cwynion lefel isel.

Pan holodd Phillipa Earlam, dywedodd y Swyddog Monitro mai nifer isel o gwynion oedd wedi eu derbyn yn Sir y Fflint ac y byddai diweddariad yn cael ei roi ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r materion sy'n ymwneud â Chwynion Cod Ymddygiad a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 24. LLYFR ACHOSION OBMWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Darparodd y Dirprwy Swyddog Monitro drosolwg o ganlyniadau'r cwynion a gafodd eu hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ddangosir yn rhifyn mwyaf diweddar Llyfr Achosion yr Ombwdsmon. Roedd dolen i'r Llyfr Achosion wedi'i chynnwys ar y rhaglen er gwybodaeth. O'r tri

achos, doedd dim tystiolaeth o dorri amod yn un achos, a doedd dim angen gweithredu yn y ddau achos arall.

Ar achos lle roedd aelod â chysylltiad personol a chysylltiad oedd yn rhagfarnu wedi siarad mewn cyfarfod, dywedodd Julia Hughes er bod y Cadeirydd caniatáu hynny, cyfrifoldeb aelodau unigol yw gwybod na ddylent siarad. Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro ac eglurodd bod yr amgylchiadau lliniaru oedd yn gysylltiedig â'r achos penodol hwn yn golygu nad oedd angen gweithredu pellach.

## 25. FFORWM SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Julia Hughes ei hadroddiad ar y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd 14 Medi 2018, roedd copïau o'r adroddiad wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Tra bo'r adroddiad yn cynnwys ei chanfyddiadau ei hun o'r gynhadledd, roedd yn cydnabod y byddai pawb wnaeth fynychu â'u safbwyntiau eu hunain a gwahoddddd gynrychiolwyr eraill y Pwyllgor a fynychodd i gyfrannu.

Amlygodd rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y siaradwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru.

Soniodd y Cynghorydd Heesom am y nifer isel o aethodau etholedig oedd yn bresennol yn y gynhadledd, yr oedd yn teimlo oedd wedi ei chadeirio yn effeithiol gan y Swyddog Monitro. O safbwynt trafodaeth ar ollyngiadau, roedd yn teimlo y dylai'r Grŵp Strategaeth Cynllunio adolygu'r broses yn Sir y Fflint, gan ystyried y gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd ar ddalgylchoedd o safbwynt ardaloedd ceisiadau. Wrth egluo'r dull gweithredu yn Sir y Fflint, cytunodd y Swyddog Monitro i gysylltu â Chyngor Gwynedd ac adrodd yn ôl am y canfyddiadau yn y cyfarfod nesaf lle bydd cyfle i wneud hynny. Awgrymodd y Cadeirydd ein bod yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar yr un mater.

Cytunodd y Swyddoog Monitro i gylchredeg dolen i'r wefan lle roedd papurau a chlipiau fideo o'r gynhaldedd ar gael.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 26. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

Cyfarfod mis Tachwedd:

Roedd y cyfarfod wedi ei symud i 12 Tachwedd er mwyn annog cynrychiolwyr cynghorau tref/ cymuned i fynychu. Roedd y lleoliad wedi ei newid i Gaffi Isa ym Mynydd Isa a byddai sesiwn hyfforddiant yn cael ei gynnal cyn i'r cyfarfod gychwyn. Maes o law byddai'r Swyddog Monitro yn cysylltu â'r holl

Glerciaid er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno pynciau ar gyfer rhaglenni. Roedd eitemau eraill ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys:

- Adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro ar yr hyfforddiant a gyflawnwyd.
- Gwybodaeth am y broses gollyngiadau yng Nghyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru.
- Fersiwn ddiweddaraf Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd i'w gyhoeddi yn fuan.
- Eitem i ystyried amlder adrodd ar Drosolwg Cwynion Moesegol.

Ar gyfer cyfarfodydd ar ôl mis Tachwedd:

- Cwynion Cod Ymddygiad yn Sir y Fflint.
- Adborth o ymweliadau â Chynghorau Tref / Cymuned.

Ar y pwynt olaf, cytunodd y Swyddog Monitro i ddarparu rhestr llawn o Gynghorau tref / cymuned i'r Pwyllgor (gan nad oedd y rhestr a ddarparwyd eisoes yn un cyflawn) yn osgyal â'r ddogfen yn manylu ar bwrpas yr ymweliadau.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd.

## 27. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 7.55pm)

…………………………
**Cadeirydd**